# Y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch

## Adran C: Defnyddio'r

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2023

Wedi'i ddiwygio: Gorffennaf 2025

# Cynnwys


**1 Cyflwyniad ... 1**
**2 Cynllunio ar gyfer asesu a graddio ... 1**
a Safonau graddio ac unedau ... 1
b Cynlluniau ar gyfer asesu unedau ... 2
c Sut i ddefnyddio elfennau ac is-elfennau'r Safon Raddio ... 3
d Marciau rhifol ... 3
e Cynllunio ar gyfer y gwaith integredig o asesu deilliannau dysgu o fwy nag un uned drwy un aseiniad ... 3
**3 Rhoi gwybodaeth ymlaen llaw i'r myfyrwyr ... 4**
**4 Rheoli'r broses o gyflwyno gwaith myfyrwyr ... 4**
a Cyflwyno gwaith yn ffurfiol ... 4
b Cyflwyno fersiwn drafft ... 5
c Cyflwyno gwaith yn hwyr ac ymestyn dyddiadau cau ... 5
d Cyflwyniadau llwyddiannus neu aflwyddiannus ... 5
e Ailgyflwyno gwaith ... 6
f Atgyfeirio gwaith ... 6
**5 Asesu gwaith y myfyrwyr ... 6**
a Llunio proffil graddio ar gyfer uned ... 7
b Pennu'r radd derfynol ar gyfer yr uned ... 7
**6 Rhoi adborth am benderfyniadau graddio i fyfyrwyr ... 8**
**7 Newid graddau a dangosyddion graddau ... 8**
a Gwallau gweinyddol ... 9
b Ailystyried gwaith ... 9
**8 Cadw cofnodion ... 9**
**9 Gwybodaeth bellach ... 9**
**Atodiad C1: Y rheoliadau sy'n ymwneud ag ailasesu (ailgyflwyno, ailystyried ac atgyfeirio) ... 10**
Yr egwyddorion ... 10
Ailgyflwyno gwaith ... 10
Ailystyried gwaith ... 12
Atgyfeirio gwaith (ailgyflwyno am yr ail dro) ... 13
Tystiolaeth ... 13
**Atodiad C2: Y proffiliau graddio a'r graddau ar gyfer unedau ... 16**
**Atodiad C3: Siart llif y broses gyflwyno ... 17**
**Atodiad C4: Siart llif y broses ailgyflwyno ... 18**
**Atodiad C5: Siart llif y broses ailystyried ... 19**
**Rheoli fersiynau ... 20**

# 1 Cyflwyniad

Rhaid defnyddio'r tair Safon Raddio sydd wedi eu nodi'n fanwl yn Adran B yn gyfartal gyda phob uned raddedig ac ar draws pob aseiniad mewn uned raddedig. Mae dwy elfen (a, b) i Safon Raddio 1 (Gwybodaeth a dealltwriaeth) ac i Safon Raddio 2 (Sgiliau pwnc-benodol), a rhaid defnyddio pob un o'r ddwy ar gyfer pob uned a phob aseiniad. Mae tair elfen (a, b, c) i Safon Raddio 3 (Sgiliau trosglwyddadwy), a rhaid defnyddio o leiaf dwy ohonynt ar gyfer pob uned raddedig a phob aseiniad, **yn ogystal â** defnyddio pob un o'r tair elfen (a, b, c) o leiaf unwaith ar draws asesiadau pob Diploma a ddyfernir i fyfyriwr.

Mae elfennau ac is-elfennau'r Safonau Graddio a ddewisir ar gyfer yr uned yn ffurfio fframwaith lle gall y tiwtoriaid gofnodi a gwobrwyo safon gwaith y myfyriwr yn yr agweddau hynny o berfformiad sy'n berthnasol i'r maes astudio penodol. Mae'n rhaid i bob Asiantaeth Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaeth DMiAU') roi cyfarwyddyd clir i'r darparwyr mewn gwybodaeth ysgrifenedig, hyfforddiant a chymorth (gan gynnwys drwy brosesau sicrhau cydraddoldeb a safoni) ynglŷn â sut y dylai'r tiwtoriaid ddefnyddio elfennau ac is-elfennau'r Safonau Graddio a ddewisir ar gyfer yr uned, a sut i sicrhau bod pob un o dair elfen (a, b, c) Safon Raddio 3 (Sgiliau trosglwyddadwy) yn cael eu defnyddio o leiaf unwaith ar draws asesiadau pob Diploma a ddyfernir.

Yn arbennig, dylai pob Asiantaeth DMiAU sicrhau y rhoddir gwybod, a mynediad, i'r tiwtoriaid i ofynion llawn y Cynllun Graddio sydd wedi eu nodi yn y ddogfen hon, a'r canllawiau cysylltiedig a'r dogfennau y maen nhw'n cyfeirio atynt. Wrth osod eu gofynion ar gyfer asesiadau, dylai pob Asiantaeth DMiAU roi ystyriaeth i Adran E yr *Amodau Mynediad i AU* hefyd.

# 2 Cynllunio ar gyfer asesu a graddio

Mae'r tair Safon Raddio (gwelwch Adran B) yn darparu'r prif bwynt cyfeirio hanfodol ar gyfer y Cynllun Graddio. Mae QAA yn cyhoeddi'r argraffiad cyflawn a chyfredol ar ei gwefan 'Mynediad i AU'. Rhaid defnyddio'r fersiwn hon at bob diben.

## a Safonau graddio ac unedau

Defnyddir pob un o'r tair Safon Raddio ar gyfer pob uned raddedig ac ar draws pob aseiniad o fewn uned raddedig.

Mewn unedau lle gosodir mwy nag un aseiniad, ni cheir dyfarnu gradd ar gyfer pob un o'r aseiniadau; mae'r graddio'n digwydd ar lefel yr uned yn unig.

Mewn unedau lle gosodir mwy nag un aseiniad, ni cheir defnyddio'r aseiniadau unigol i raddio Safonau Graddio unigol (er enghraifft, ni cheir defnyddio un o'r aseiniadau i raddio 'Gwybodaeth a dealltwriaeth' yn unig, a defnyddio aseiniad arall i raddio 'Sgiliau pwnc-benodol' a 'Sgiliau trosglwyddadwy').

Fel arfer, dewisir yr is-elfennau ar lefel yr uned wrth lunio'r cynllun ar gyfer asesu'r uned a dylent fod yn briodol ar gyfer yr ystod gyfan o aseiniadau unigol. Felly, ni cheir aseinio'r is-elfennau wrth ddilysu'r uned.

Dim ond pan fydd pob un o'r aseiniadau ar gyfer yr uned unigol wedi eu hasesu ac y mae'r tiwtor wedi penderfynu bod y myfyriwr wedi cyflawni'r deilliannau dysgu a'r meini prawf asesu i gyd ymhob aseiniad yn yr uned (ac felly wedi pasio'r uned) y bydd yr uned yn cael ei graddio. Ni cheir rhoi unrhyw radd i aseiniad unigol.

Rhoddir dangosydd gradd 'wedi pasio', 'teilyngdod' neu 'ragoriaeth' ar gyfer pob un o'r safonau graddio. Bydd y tiwtor yn adolygu pob un o'r aseiniadau sy'n gysylltiedig â'r uned unigol ac yn penderfynu a yw'r myfyriwr wedi dangos y safon sy'n ofynnol ar gyfer y radd 'teilyngdod' neu 'ragoriaeth', neu ai gradd 'pasio' yw'r canlyniad o hyd.

Mae'n rhaid i bob tiwtor gadw cofnod ysgrifenedig o'u cyfiawnhad am y dangosydd gradd sydd wedi ei aseinio ar gyfer pob Safon Raddio.

Bydd y tiwtor yn adolygu'r tri dangosydd gradd sydd wedi eu haseinio ar gyfer yr uned ac yn pennu'r radd gyffredinol ar gyfer yr uned, drwy ddefnyddio dull safonol sydd wedi ei ddisgrifio'n fanwl yn Nhabl 1 yn Atodiad C2. Argymhellir y radd gyffredinol i'r Bwrdd Dyfarnu, a bydd y Bwrdd yn ei hystyried a'i chadarnhau. (Amod F1.1)

## b Cynlluniau ar gyfer asesu unedau

Gellir asesu unedau drwy un, neu fwy nag un aseiniad. Gall pob aseiniad gynnwys un neu fwy o dasgau. Mae'n rhaid i bob tiwtor ddatblygu cynlluniau sy'n dangos sut maen nhw'n bwriadu asesu'r uned, ac mae'n rhaid i'r cynlluniau hyn gael eu safoni'n fewnol.

Os bwriedir defnyddio un aseiniad yn unig i asesu'r uned, bydd pob un o'r deilliannau dysgu ar gyfer yr uned yn cael eu hasesu drwy'r aseiniad hwnnw.

Os defnyddir mwy nag un aseiniad i asesu'r uned, bydd y cynllun asesu ar gyfer yr uned yn dangos sut mae'r deilliannau dysgu, ac elfennau ac is-elfennau'r Safonau Graddio, yn cael eu dyrannu ar draws yr aseiniadau. Mae'n bwysig nodi:

- y dylid asesu deilliannau dysgu'r uned yn ffurfiol unwaith yn unig, fel y bydd gwahanol aseiniadau'n cael eu defnyddio i asesu gwahanol ddeilliannau dysgu neu grwpiau o ddeilliannau dysgu
- bod ystyr y term 'aseiniad' yn y cyd-destun yma'n cynnwys arholiadau ac, os cânt eu defnyddio yn rhan o gynllun asesu uned, dyma'r unig bryd y dylid gwneud asesiad ffurfiol o'r deilliannau dysgu sydd dan sylw yn yr arholiad
- bod modd defnyddio is-elfennau'r Safonau Graddio fwy nag unwaith yn y cynllun asesu ar gyfer yr uned, fel sy'n briodol i asesu pob aseiniad.

Gall cynllunio ar gyfer graddio fynd yn ddianghenraid o gymhleth os bydd unedau'n cael eu hasesu drwy nifer fawr o aseiniadau bach ar wahân. Wrth ddatblygu cynllun asesu ar gyfer uned, dylai'r tiwtoriaid gynllunio rhaglenni o aseiniadau sy'n ateb anghenion datblygiadol y myfyrwyr a gofynion yr uned mewn cyn lleied o aseiniadau ag y bo modd.

Ar gyfer unedau a asesir drwy fwy nag un aseiniad, gall y tiwtoriaid, neu dimau'r cyrsiau, ddewis pa un o is-elfennau'r Safon Raddio a ddewiswyd ar gyfer yr uned i'w defnyddio ar gyfer pob aseiniad. Ond, ar gyfer Safon Raddio 3 (Sgiliau trosglwyddadwy), rhaid defnyddio'r **elfennau** (a, b, c) a ddewiswyd mewn ffordd gyson ar draws yr holl aseiniadau sy'n rhan o'r uned, ond mae caniatâd i ddefnyddio detholiad o'r is-elfennau a ddewiswyd. Wrth wneud eu dewisiadau, mae'r rheolau a ganlyn yn berthnasol:

- rhaid defnyddio pob un o'r tair Safon Raddio ar draws pob aseiniad
- wrth asesu'r uned, rhaid defnyddio pob un o'r elfennau a'r is-elfennau a ddewiswyd ar gyfer yr uned.

Gall pob is-elfen o'r Safon Raddio a ddefnyddir gydag uned gael ei ddefnyddio i wahanol raddau yn dibynnu ar ei phwysigrwydd perthynol. Er enghraifft, os asesir uned drwy dri aseiniad, efallai y bydd un o'r is-elfennau ar gyfer yr uned honno'n cael ei defnyddio ymhob un o'r tri aseiniad a gallai un arall gael ei defnyddio gyda dim ond un o'r aseiniadau. O'i ddefnyddio'n gywir, mae'r dull hwn yn helpu i lunio cynllun asesu sy'n adlewyrchu pwysigrwydd perthynol y gwahanol

fathau o berfformiad wrth gyflawni'r uned. Ond, dylai'r tiwtoriaid hefyd ddewis yn ofalus i sicrhau nad yw'r cynllun asesu ar gyfer yr uned yn debygol o arwain at roi gwerth anghymesur i ystyriaethau bach wrth asesu perfformiad.

## c Sut i ddefnyddio elfennau ac is-elfennau'r Safon Raddio

Mae pob Safon Raddio'n cynnwys nifer o elfennau ac is-elfennau (gwelwch Adran B). Mae'r elfennau a'r is-elfennau hyn yn adlewyrchu'r gwahanol fathau o berfformiad sy'n berthnasol i nifer o feysydd astudio, felly mae'r fersiwn llawn yn cynnwys eitemau sy'n berthnasol i feysydd astudio penodol yn unig. Mae'n rhaid i'r tiwtor neu dîm y cwrs ystyried yr holl elfennau ac is-elfennau sydd ar gael ar gyfer pob un o'r tair Safon Raddio, ac yna ddewis a defnyddio'r elfennau (Safon Raddio 3 yn unig) a'r is-elfennau (Safonau Graddio 1, 2 a 3) sy'n briodol i'w maes astudio ac i ganolbwynt a gofynion pob aseiniad.

Mae'r rheolau ynglŷn â sut y gellir defnyddio a chyfuno'r elfennau ac is-elfennau, yn cynnwys uchafswm ac isafswm rhifau, yn cael eu rhoi gyda phob Safon Raddio a ddarperir yn Adran B, ac maen nhw wedi eu rhestru yn gyntaf yn nisgrifiad pob safon.

Mae'n rhaid i benderfyniadau'r tiwtoriaid ynglŷn â pha is-elfennau i'w defnyddio gydag aseiniad hefyd sicrhau:

- bod modd gwobrwyo myfyrwyr am berfformiad sy'n well na'r safon sy'n ofynnol er mwyn pasio ymhob agwedd o'r gwaith sydd i gael ei raddio, a
- bod yr is-elfennau a ddewisir ar gyfer yr aseiniad yn nodi'r ystyriaethau sy'n berthnasol i asesu safon gwaith y myfyrwyr.

Os defnyddir mwy nag un aseiniad i asesu'r uned, mae modd i'r tiwtoriaid ddefnyddio'r rhestr o is-elfennau sydd wedi ei nodi yn y cynllun asesu ar gyfer yr uned, a dewis gwahanol is-elfennau, fel y bo'n briodol, ar gyfer gwahanol aseiniadau. Mae hyn yn sicrhau bod yr is-elfennau'n berthnasol i natur pob aseiniad. Rhaid defnyddio pob un o'r is-elfennau sydd wedi eu rhestru yn y cynllun asesu ar gyfer yr uned o leiaf unwaith ar draws yr aseiniadau ar gyfer yr uned honno.

Ar gyfer Safon Raddio 3 (Sgiliau trosglwyddadwy), rhaid defnyddio'r **elfennau** (a, b, c) a ddewiswyd yn y cynllun asesu ar gyfer yr uned mewn ffordd gyson ar draws yr holl aseiniadau sy'n rhan o'r uned, ond mae caniatâd i ddefnyddio detholiad o'r is-elfennau a ddewiswyd.

Ar gyfer pob un o'r tair Safon Raddio, rhaid dewis elfennau ac is-elfennau cyfatebol ar lefelau 'teilyngdod' a 'rhagoriaeth' bob amser; ni cheir defnyddio un gyfres o elfennau ac is-elfennau o'r datganiadau 'teilyngdod' a chyfres wahanol (neu ychwanegol) o elfennau ac is-elfennau o'r datganiadau 'rhagoriaeth'.

## d Marciau rhifol

Ni cheir defnyddio marciau rhifol yn rhan o'r Cynllun Graddio ar gyfer y Diploma Mynediad i AU.

## e Cynllunio ar gyfer y gwaith integredig o asesu deilliannau dysgu o fwy nag un uned drwy un aseiniad

Waeth beth yw maint neu fath y cyfuniad o ddulliau asesu sy'n cael eu defnyddio, mae'n rhaid defnyddio'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer cynllunio gwaith asesu a graddio, ond bydd angen mapio ac olrhain y berthynas rhwng y tasgau asesu a'r deilliannau dysgu cysylltiedig yn ofalus, ynghyd â'r ffordd y mae elfennau ac is-elfennau'r Safonau Graddio'n cael eu defnyddio wedyn ar draws yr aseiniad cyfan, a hynny er mwyn sicrhau eglurder ynghylch yr hyn sy'n cael ei asesu ac ymhle mae'n cael ei raddio.

# 3 Rhoi gwybodaeth ymlaen llaw i'r myfyrwyr

Mae'n rhaid i bob darparwr/canolfan roi gwybodaeth i'r myfyrwyr am y rheoliadau sy'n ymwneud â chyflwyno gwaith myfyrwyr - megis cyflwyno fersiynau drafft a ffurfiol, cyfleoedd i ailgyflwyno, cyflwyno gwaith yn hwyr, ac ymestyn dyddiadau cau (gwelwch adran 4 'Rheoli'r broses o gyflwyno gwaith myfyrwyr').

Mae'n rhaid i bob tiwtor roi briff pob aseiniad i'r myfyrwyr sy'n esbonio'r broses o asesu eu gwaith, gan gynnwys manylion y Safonau Graddio ac elfennau ac is-elfennau'r safonau sydd i gael eu defnyddio wrth asesu'r aseiniad (yn rhan o'r broses o asesu'r uned gyfan).

Gall y tiwtoriaid ddarparu rhagor o wybodaeth am y cysylltiadau disgwyliedig rhwng yr elfennau a'r is-elfennau a ddewiswyd a gofynion yr aseiniad, gan egluro i'r myfyrwyr beth mae'r safonau, yr elfennau a'r is-elfennau'n ei olygu i'r maes astudio penodol neu'r disgwyliadau o ran y math o berfformiad sy'n berthnasol i'r aseiniad unigol. Wrth roi gwybodaeth am y broses raddio, **ni chaiff** y tiwtor:

- ymwreiddio iaith elfennau neu is-elfennau'r Safon Raddio ym manylion y tasgau ar gyfer aseiniadau
- newid y Safonau Graddio mewn unrhyw ffordd (heblaw drwy ddethol neu hepgor elfennau neu is-elfennau unigol ar gyfer yr aseiniad), na cheisio eu hail ysgrifennu fel meini prawf graddio
- aralleirio neu newid yr atalnodi yn yr elfennau neu'r is-elfennau o hwnnw sydd yn y fersiwn cyfredol a ddarperir gan QAA
- darparu cyfarwyddiadau cam wrth gam a allai ostwng lefel yr her yn yr aseiniad neu'r disgwyliadau o ran gweithio'n ymreolaethol sy'n briodol i astudiaeth sy'n is na lefel addysg uwch.

Yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ofynnol sydd wedi ei nodi uchod, mae nifer fawr o ddarparwyr/canolfannau hefyd yn sicrhau bod copi o'r gyfres gyflawn o Safonau Graddio ar gael i'r myfyrwyr, e.e. mewn llawlyfr i fyfyrwyr, wedi eu rhoi mewn rhith-amgylchedd dysgu neu eu darparu gyda dolen i'r canllawiau cyflawn am y broses raddio y gellir cyfeirio atynt sydd ar y wefan 'Mynediad i AU'.

# 4 Rheoli'r broses o gyflwyno gwaith myfyrwyr

(Mae Atodiad C3 yn rhoi trosolwg o'r broses gyflwyno.)

Mae pob Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am gyhoeddi eu rheoliadau asesu eu hunain, yn cynnwys rheoliadau am gyflwyno gwaith y myfyriwr. Mae rheoliadau'r Asiantaethau DMiAU wedi eu seilio ar y gofynion a osodwyd gan QAA, ac mae eu helfennau allweddol wedi eu rhestru isod.

## a Cyflwyno gwaith yn ffurfiol

Mae'n rhaid i bob darparwr/canolfan weithredu dull ffurfiol o gyflwyno gwaith myfyrwyr i gael ei asesu. Rhaid gweithredu'r dull hwn mewn ffordd gyson ar draws cyrsiau Mynediad i AU pob darparwr/canolfan, ac mae'n rhaid i bob darparwr/canolfan sicrhau bod y tiwtoriaid unigol yn gweithredu yn unol â'u dull ac â rheoliadau'r Asiantaeth DMiAU.

Mae'n rhaid i bob darparwr/canolfan nodi eu dull o gyflwyno gwaith myfyrwyr yn nogfennaeth safonol bob cwrs (er enghraifft, yn llawlyfr y cwrs).

Mae'n rhaid i bob darparwr/canolfan esbonio, mewn ysgrifen, unrhyw ofynion penodol sy'n ymwneud â chyflwyno aseiniadau unigol (er enghraifft, ar daflenni briffio'r aseiniadau).

Mae'n rhaid i bob darparwr/canolfan osod dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno pob gwaith a asesir yn ffurfiol a rhoi gwybod am y rhain i'r myfyrwyr cyn gwneud yr aseiniad (er enghraifft, ar daflenni briffio'r aseiniadau).

Yn nogfennaeth safonol bob cwrs, mae'n rhaid i bob darparwr/canolfan nodi eu gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer gwneud cais am estyniad i'r dyddiad cyflwyno, a'r sail ar gyfer cymeradwyo estyniad. Mae'n rhaid i ddogfennaeth safonol bob cwrs (er enghraifft, llawlyfr y cwrs) hefyd nodi beth fydd y goblygiadau ar gyfer graddio os cyflwynir unrhyw aseiniad yn hwyr heb sicrhau estyniad o flaen llaw (gwelwch adran 4c 'Cyflwyno gwaith yn hwyr ac ymestyn dyddiadau cau').

Unwaith y cyflwynir gwaith yn ffurfiol, ni chaiff y myfyriwr na'r tiwtor ddatgan yn hwyrach ymlaen ei fod yn fersiwn drafft (gwelwch isod).

## b Cyflwyno fersiwn drafft

Caniateir cyfleoedd i gyflwyno fersiynau drafft o aseiniadau (neu rannau ohonynt) i gael sylwadau ac adborth gan y tiwtoriaid cyn y dyddiad cyflwyno ffurfiol dim ond ar gyfer yr aseiniadau penodol lle mae'r tiwtor wedi penderfynu bod hyn yn briodol ac wedi esbonio hynny o flaen llaw. Ni fydd cyfleoedd o'r fath yn drefniant arferol.

Os bydd cyfle i gyflwyno fersiwn drafft, esbonnir hyn i bob myfyriwr mewn ysgrifen (er enghraifft, ar daflenni briffio'r aseiniadau) cyn iddyn nhw ddechrau gweithio ar yr aseiniad.

Caiff y tiwtoriaid roi adborth ysgrifenedig ar fersiynau drafft a chymryd rhan mewn deialog o fath cyffredinol sy'n gadael i fyfyrwyr weld sut y gallant ddatblygu eu hymateb i friff yr aseiniad. Wrth ymateb i waith a gyflwynir ar ffurf drafft, **ni chaiff** y tiwtoriaid:

- wneud cywiriadau manwl i gyflwyniad fersiwn drafft o'r gwaith
- roi gwybodaeth am ddangosyddion graddau a ragwelir, neu wybodaeth fanwl arall am feirniadaethau graddio posibl.

## c Cyflwyno gwaith yn hwyr ac ymestyn dyddiadau cau

Rhaid dilyn gweithdrefnau safonol ysgrifenedig y darparwr ar gyfer cymeradwyo cais am estyniad (gwelwch adran 4e 'Ailgyflwyno gwaith') bob amser pan fydd y myfyriwr yn gwneud cais am estyniad i'r dyddiad cau sydd wedi ei nodi ar daflen friffio'r aseiniad.

Os cyflwynir unrhyw waith ar ôl y dyddiad cau ffurfiol, heb sicrhau estyniad o flaen llaw (ac os nad oes unrhyw amgylchiadau eithriadol esgusodol a allai esbonio pam na wnaethpwyd cais am estyniad), rhaid i bob dangosydd gradd (gwelwch isod) ar gyfer yr uned honno bennu na cheir dyfarnu gradd uwch na 'phasio' - h.y. lle asesir uned drwy ddefnyddio mwy nag un aseiniad; hyd yn oed os yw dim ond un o'r aseiniadau wedi ei gyflwyno'n hwyr, ni cheir dyfarnu unrhyw radd sy'n uwch na 'phasio' yn ôl y dangosyddion graddau ar gyfer yr uned.

Os cyflwynir unrhyw aseiniad ar ôl y dyddiad cyflwyno heb sicrhau estyniad o flaen llaw ac os bydd y gwaith yn methu cyflawni'r deilliannau dysgu, nid oes cyfle i ailgyflwyno gwaith, heblaw drwy'r broses atgyfeirio. (Gwelwch Adran E.)

## d Cyflwyniadau llwyddiannus neu aflwyddiannus

Os nad yw cyflwyniad yn llwyddiannus ar y cais cyntaf (hynny yw, nid yw un neu fwy o'r deilliannau dysgu ar gyfer yr aseiniad wedi eu cyflawni), ystyrir yr aseiniad yn gyflwyniad aflwyddiannus. Dan yr amgylchiadau hyn, dylid cynnig cyfle i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith (gwelwch Atodiad C1).

## e Ailgyflwyno gwaith

Mae'n rhaid rheoli'r broses o ailgyflwyno gwaith yn unol â'r rheoliadau ailgyflwyno manwl (gwelwch Atodiad C1). Yn arbennig:

- rhaid dychwelyd y cyflwyniad gwreiddiol i'r myfyriwr, gydag adborth ysgrifenedig sy'n esbonio pa ddeilliannau dysgu y mae wedi/nad yw wedi eu cyflawni
- ni cheir rhoi unrhyw adborth am safon y gwaith (h.y. graddau) ar y cam hwn
- mae'n rhaid esbonio'r gofynion penodol sy'n gysylltiedig â chyfle i ailgyflwyno yn glir i'r myfyriwr
- rhaid graddio ailgyflwyniadau llwyddiannus drwy ddilyn yr un broses â honno a ddefnyddir ar gyfer cyflwyniadau llwyddiannus a rhoddir y graddau ar gyfer yr uned yn unol â hynny
- dim ond un cyfle yn unig y ceir ei roi i ailgyflwyno gwaith ar gyfer pob aseiniad unigol (heblaw bod amgylchiadau lliniarol derbyniol wedi eu caniatáu).

Os bydd yr ailgyflwyniad yn aflwyddiannus (hynny yw, nid yw'r gwaith a ailgyflwynwyd yn cyflawni'r deilliant/deilliannau dysgu'n llawn o hyd), yr unig ffordd y gellir darparu cyfle arall i ailgyflwyno'r gwaith yn ystod yr un cyfnod cofrestru yw drwy'r broses atgyfeirio.

## f Atgyfeirio gwaith

Fel arfer, caiff myfyriwr un cyfle yn unig i ailgyflwyno'r gwaith sydd wedi methu bodloni pob un o ofynion y deilliannau dysgu cysylltiedig. Mae'r broses atgyfeirio'n caniatáu i dîm y cwrs argymell y dylid rhoi cyfle i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith am yr ail dro. Hefyd, gellir gofyn am atgyfeiriad i'r myfyrwyr hynny sydd wedi cyflwyno eu gwaith ar ôl y dyddiad cau heb sicrhau estyniad o flaen llaw, ac mae'r gwaith hwn wedi methu bodloni gofynion un neu fwy o'r deilliannau dysgu cysylltiedig. Os bydd hyn yn digwydd yn ystod y cwrs, cyfeirir yr argymhelliad at y prif safonwr neu'r safonwr allanol drwy'r broses sydd wedi ei disgrifio yn Atodiad C1.

Os bydd yr angen am atgyfeirio gwaith yn digwydd ar ddiwedd y cwrs (er enghraifft, o ganlyniad i asesiadau a wneir yn ystod wythnosau olaf y cwrs), rhoddir yr argymhelliad i'r Bwrdd Dyfarnu, oherwydd mae atgyfeirio gwaith ar y cam hwn o'r cwrs yn effeithio ar y gofynion adnoddau dynol a ffisegol, yn ogystal â'r dyfarniadau eu hunain, ac mae angen ystyried yr effeithiau hyn yn llawn a'u rheoli'n ofalus (gwelwch Atodiad E1 Adran E).

# 5 Asesu gwaith y myfyrwyr

Mae defnyddio cyfres gyffredin o Safonau Graddio a chymhwyso dull cyffredin o bennu graddau terfynol yn darparu'r dystiolaeth ar gyfer beirniadaethau graddio, a'r gallu i'w cymharu, ar bob cwrs Mynediad i AU. Ar yr un pryd, mae'r dewis sydd ar gael yn y Safonau Graddio a'r gydnabyddiaeth bod gan farn broffesiynol rôl ddilys i'w chwarae mewn pennu graddau, yn osgoi dull cwbl fecanistig sy'n rhagdybio bod asesiad yn wyddoniaeth fanwl gywir wedi ei llywio gan gyfrifiaduron ac heb ymwneud o gwbl â'r gallu i feirniadu.

Mewn asesiadau Mynediad i AU, mae'r tiwtoriaid yn defnyddio eu barn broffesiynol eu hunain i gymhwyso'r Safonau Graddio mewn ffyrdd sy'n ystyrlon ac yn briodol i'w pwnc, ac, yn yr un modd, maent yn defnyddio eu gwybodaeth a'u harbenigedd proffesiynol yn y pwnc wrth benderfynu pa ddulliau addysgu ac asesu fydd yn briodol i'r unedau penodol, ac wrth farnu a yw'r deilliannau dysgu wedi eu cyflawni ai peidio. Bydd y rheiny sy'n ymwneud â gweithredu trefnau sicrhau ansawdd yr Asiantaethau DMiAU, gan gynnwys eu prosesau sicrhau cydraddoldeb a safoni, yn defnyddio eu barn broffesiynol eu hunain i gadarnhau, ac efallai i herio, y beirniadaethau proffesiynol a wneir gan y tiwtoriaid wrth asesu.

Wrth asesu gwaith y myfyrwyr, mae'n rhaid i bob tiwtor ystyried yn y lle cyntaf a yw'r aseiniad a gyflwynwyd gan y myfyriwr wedi cyflawni pob un o'r deilliannau dysgu a nodwyd ar gyfer yr aseiniad. Os bydd pob un o'r deilliannau dysgu wedi eu cyflawni, ystyrir bod yr aseiniad yn gyflwyniad llwyddiannus. Os mai dyma unig aseiniad yr uned, gellir ei graddio. Os oes aseiniadau eraill ar gyfer yr uned, ni ellir graddio hyd nes bydd pob un o'r aseiniadau wedi eu cyflwyno'n llwyddiannus a phob un o'r deilliannau dysgu ar gyfer yr uned wedi eu cyflawni. Nes bydd pob un o ddeilliannau dysgu'r uned wedi eu cyflawni, ni roddir unrhyw raddau nac adborth am y broses raddio i'r myfyriwr.

Nid yw cyflwyniad aflwyddiannus yn gymwys i gael ei ystyried ar gyfer graddio'r uned ac mae'r broses ailgyflwyno a amlinellir uchod yn berthnasol.

Ni chaiff y tiwtoriaid ddefnyddio marciau rhifol ar gyrsiau Diplomâu Mynediad i AU a gydnabyddir gan QAA.

## a Llunio proffil graddio ar gyfer uned

Ni roddir unrhyw raddau i aseiniadau unigol (ond os asesir yr uned drwy un aseiniad yn unig bydd gradd yr uned, i bob pwrpas, yr un fath â gradd yr aseiniad).

Mae'n rhaid i bob tiwtor ystyried gwaith y myfyriwr mewn perthynas ag elfennau ac is-elfennau'r Safon Raddio a ddewiswyd ar gyfer yr uned. Ar gyfer pob un o'r Safonau Graddio (mewn perthynas â'r elfennau ac is-elfennau penodol a ddewiswyd), mae'n rhaid i bob tiwtor benderfynu a yw safon perfformiad y myfyriwr wedi ei disgrifio'n well gan y datganiad 'rhagoriaeth' (Rh) neu gan y datganiad 'teilyngdod' (T), neu a yw'r gwaith wedi methu cyrraedd y naill safon neu'r llall, ac felly ei fod wedi cyrraedd safon 'pasio' (P) a dim uwch.

Rhoddir dangosydd gradd (P, T neu Rh) ar gyfer pob un o'r tair Safon Raddio. Dim ond 'P', 'T' neu 'Rh' y gellir eu defnyddio fel dangosyddion graddau; nid oes modd rhoi dangosyddion gradd canolradd neu wedi'u haddasu.

P'un a yw uned wedi ei hasesu drwy gyfrwng un aseiniad yn unig neu drwy nifer o aseiniadau, mae'n rhaid i bob tiwtor gofnodi'r penderfyniadau a wneir ar gyfer pob uned fel cyfres o ddangosyddion graddau (P, T neu Rh) ar gyfer pob un o'r tair Safon Raddio. Gyda'i gilydd, mae'r dangosyddion hyn yn ffurfio'r proffil graddio ar gyfer yr uned.

## b Pennu'r radd derfynol ar gyfer yr uned

Mae pob Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am sicrhau bod pob gradd derfynol a ddyfernir ganddynt ar gyfer pob uned wedi eu pennu'n gywir. Mae'r rheoliadau sy'n llywio'r broses o wneud hyn wedi eu disgrifio'n fanwl isod, ac mae'n rhaid i bob safonwr sicrhau bod y darparwyr/canolfannau'n cydymffurfio â'r broses a'r rheolau cysylltiedig. P'un a yw'r unedau'n cael eu hasesu drwy un neu fwy o aseiniadau, mae'r egwyddorion a'r broses ar gyfer pennu'r radd derfynol yr un fath.

Caiff y radd ar gyfer yr uned ei seilio ar y dangosyddion graddau (P, T neu Rh) ar gyfer pob un o'r tair Safon Raddio. Mae gwerth cyfartal gan bob un o'r dangosyddion graddau yn y proffil graddio ar gyfer yr uned ac ystyrir pob un wrth benderfynu ar y radd ar gyfer yr uned.

Pennir y radd derfynol ar gyfer pob uned drwy ganfod canolrif y graddau ym mhroffil graddio'r uned. Mae'r canolrif hwn yn amlwg pan fydd yr holl ddangosyddion graddau sydd wedi eu nodi yn y proffil graddio ar gyfer yr uned wedi eu cofnodi yn eu trefn o'r isaf i'r uchaf (er enghraifft, mae 'P**P**T' yn dynodi gradd 'pasio' ar gyfer yr uned; mae 'P**T**T' yn dynodi 'teilyngdod'; ac mae 'T**Rh**Rh' yn dynodi 'rhagoriaeth'). Mae Tabl 1 yn Atodiad C2 yn nodi'r graddau terfynol ar gyfer yr unedau sydd i gael eu haseinio ar gyfer pob amnewidiad o'r proffil graddio ar gyfer yr uned.

Bydd y tiwtor yn adolygu'r dystiolaeth ar gyfer y beirniadaethau a wnaed am safon y perfformiad yn erbyn gwahanol Safonau Graddio, er mwyn cadarnhau'r dangosyddion graddau a gallu esbonio'r radd i'r myfyriwr a chofnodi'r radd ar gyfer yr uned. Dylai'r tiwtor fod yn hyderus hefyd bod y dystiolaeth ar gyfer y feirniadaeth am y radd ar gyfer yr uned yn agored ac yn eglur at ddibenion safoni.

# 6 Rhoi adborth am benderfyniadau graddio i fyfyrwyr

Mae'n rhaid i bob tiwtor roi adborth am bob perfformiad sydd wedi ei raddio.

Rhaid i'r adborth fod yn berthnasol i ofynion y deilliannau dysgu, ac elfennau ac is-elfennau'r Safonau Graddio a ddewisir ar gyfer yr uned, a bod yn gyson â hwy.

Mae'n rhaid i bob tiwtor ddefnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu a yw iaith y datganiadau gradd 'teilyngdod' a 'rhagoriaeth' yn ddigonol ynddynt eu hunain i ddangos sut y cyflawnwyd y radd, neu a oes angen unrhyw sylwadau neu esboniadau ychwanegol neu a fyddai hynny'n ddefnyddiol i'r myfyriwr. Os bydd tiwtoriaid yn rhoi sylwadau ychwanegol, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y sylwadau hyn yn cyfateb â'r safon sydd wedi ei disgrifio yn y datganiad 'teilyngdod' neu'r datganiad 'rhagoriaeth', ac nad ydyn nhw'n cyfeirio at unrhyw agweddau o berfformiad nad ydynt mewn rhyw ffordd neu'r llall wedi derbyn sylw naill ai yn y deilliannau dysgu sy'n rhan o'r aseiniad(au) neu elfennau ac is-elfennau'r Safonau Graddio a ddefnyddiwyd.

Os defnyddir mwy nag un aseiniad i asesu'r uned, dylai'r tiwtoriaid roi adborth am yr aseiniadau unigol fel bod modd i fyfyrwyr adnabod cryfderau a gwendidau mewn gwahanol feysydd a gwella eu perfformiad. Ond ni roddir gradd, ac ni awgrymir gradd, mewn perthynas ag aseiniadau unigol.

Pan roddir adborth am waith sydd wedi methu bodloni gofynion un neu fwy o'r deilliannau dysgu, ac sydd felly wedi methu cyrraedd y safon 'pasio', ni chaiff wneud mwy na chadarnhau pa agwedd o'r deilliannau dysgu oedd heb eu cyflawni. Ni chaiff ddarparu gwybodaeth am y broses raddio. (Gwelwch hefyd adran 4e 'Ailgyflwyno gwaith'.)

Mae angen i adborth yng nghyd-destun unedau datblygiadol mawr gael ystyriaeth arbennig. Dylai adborth alluogi i'r myfyriwr ddeall beth gyflawnwyd yn dda a beth allai gael ei wella mewn gwaith yn y dyfodol (bwydo ymlaen). Mae rhai unedau sydd â nifer fawr o gredydau'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a galluoedd allweddol a allai gael eu cwblhau dros dymor neu fwy, ac a allai gynnwys meintiau sylweddol o drafodaeth rhwng y tiwtoriaid a'r myfyrwyr yn rhan o'r broses ddysgu ac addysgu. (Yn aml iawn ceir unedau o'r fath mewn rhaglenni Celf a Dylunio neu'r Celfyddydau Creadigol, neu i gefnogi prosiectau mwy.) Weithiau, ond nid bob amser, ceir cofnod o ganlyniad i hyn o ganlyniadau'r trafodaethau a'r newidiadau dilynol y mae'r myfyrwyr yn eu gwneud i'w gwaith. Waeth beth yw'r maes astudio neu'r dull asesu, ni chaiff y tiwtor ddarparu adborth wrth i'r myfyrwyr ddatblygu eu gwaith sydd mor fanwl nes ei fod yn hyfforddiant i bob pwrpas. Ni cheir rhoi unrhyw adborth sy'n cynnwys gwybodaeth benodol ynglŷn â sut i newid gwaith sydd wrthi'n cael ei ddatblygu'n barod neu sut i newid perfformiad er mwyn cyflawni deilliannau dysgu penodol neu fodloni gofynion y Safonau Graddio. (Gwelwch hefyd adran 4b 'Cyflwyno fersiwn drafft'.)

# 7 Newid graddau a dangosyddion graddau

Unwaith y bydd yr aseiniad wedi ei asesu, ni chaniateir i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith cyfan a asesir neu ran ohono er mwyn gwella'r radd derfynol ar gyfer yr uned. (Ni chaiff y tiwtor roi cyfleoedd i 'loywi graddau'.) Mae hyn yn berthnasol i gyflwyniadau cyntaf llwyddiannus ac i ailgyflwyniadau.

Dyma'r unig amgylchiadau pan fydd modd addasu dangosyddion graddau:

- os bydd unrhyw **wall gweinyddol** wedi digwydd (gwelwch adran 7a)
- o ganlyniad i'r **broses ailystyried** (gwelwch adran 7b ac Atodiad C1).

Yn y ddau achos, rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o bob newid, fel y mae wedi ei nodi yn y rheoliadau.

### a Gwallau gweinyddol

Os bydd y myfyrwyr yn canfod unrhyw wall wedi i'r gwaith graddedig gael ei ddychwelyd iddynt, disgwylir iddyn nhw dynnu sylw at y gwall o fewn wythnos i dderbyn y gwaith a aseswyd.

Os bydd unrhyw wall gweinyddol yn ymddangos (er enghraifft, wrth gwblhau'r proffil graddio ar gyfer yr uned, neu wrth gyfrifo'r radd ar gyfer yr uned), bydd y tiwtor yn cywiro'r gwall ar gofnod y myfyriwr (er enghraifft, taflen adborth yr aseiniad), gan nodi natur y gwall. Bydd arweinydd y cwrs (neu swyddog cyfatebol) yn darparu awdurdodiad ffurfiol ar gyfer y newid cyn i'r cofnod diwygiedig gael ei ddychwelyd i'r myfyriwr. Bydd cywiriad unrhyw wall gweinyddol ac awdurdodiad i unrhyw newid yn cael eu cynnwys yn y cofnod ffurfiol o ddeilliannau'r asesiadau.

Unwaith y bydd y gwaith a gyflwynir yn ffurfiol wedi ei asesu ac mae'r myfyriwr wedi cael clywed beth yw'r penderfyniadau asesu, nid oes unrhyw amgylchiadau lle gallai tiwtor wneud unrhyw newid i ddangosyddion gradd neu raddau uned heb gynnwys arweinydd y cwrs (neu swyddog cyfatebol) yn y broses, ac heb wneud cofnod ffurfiol.

### b Ailystyried gwaith

Mae'r drefn ailystyried yn berthnasol os bydd y myfyriwr yn gwneud cais am adolygu'r dangosyddion graddau heb eu cadarnhau a nodwyd ar gyfer uned astudio wedi i'r uned gael ei graddio ond cyn iddi fynd drwy'r broses safoni.

Weithiau gall myfyrwyr ofyn i raddau gael eu hadolygu. Dylid rheoli'r sefyllfa drwy'r broses ailystyried ffurfiol, fel y mae wedi ei nodi yn Atodiad C1.

Ni chaiff tiwtoriaid o dan unrhyw amgylchiadau wneud unrhyw newid i ddangosyddion gradd neu raddau uned sydd wedi eu rhoi i fyfyriwr, heb gynnwys y safonwr mewnol yn y broses, ac heb wneud cofnod ffurfiol.

## 8 Cadw cofnodion

Rhaid cofnodi pob penderfyniad graddio yn yr adborth ysgrifenedig a roddir i'r myfyrwyr, a hefyd yng nghofnod y tiwtor ei hun. Mae'n rhaid i bob darparwr/canolfan gadw cofnodion y gellir eu harchwilio o'r proffiliau graddio a'r graddau terfynol a roddir ar gyfer pob uned, a gellir eu defnyddio i safoni'n fewnol ac yn allanol, ac i ddyfarnu'r proffiliau graddio sy'n berthnasol i'r Diploma. Dylai cofnodion o'r penderfyniadau graddio a'r graddau fod ar gael i'r Asiantaethau DMiAU at ddibenion monitro.

Bydd y rheiny sy'n ymwneud â gweithredu trefnau sicrhau ansawdd yr Asiantaeth DMiAU ar gyfer sicrhau cydraddoldeb a safoni, yn defnyddio eu barn broffesiynol eu hunain i gadarnhau, ac efallai i herio, y beirniadaethau proffesiynol a wneir gan y tiwtoriaid wrth asesu. (Gwelwch Adran D.)

## 9 Gwybodaeth bellach

Mae manylion llawn y *Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU*, yn ogystal â'r holl ganllawiau cysylltiedig i'r Asiantaethau DMiAU, y darparwyr/canolfannau sy'n cynnig cyrsiau, a'u staff sy'n ymwneud â derbyn myfyrwyr addysg uwch, ar gael ar y wefan 'Mynediad i AU'.

# Atodiad C1: Y rheoliadau sy'n ymwneud ag ailasesu (ailgyflwyno, ailystyried ac atgyfeirio)

Mae pob Asiantaeth DMiAU yn cyhoeddi, ac yn gyfrifol am reoli, cyfres o reoliadau asesu sy'n berthnasol i bob cwrs Mynediad i AU a ddilysir ganddi. Mae'n rhaid i reoliadau asesu pob Asiantaeth DMiAU gynnwys y manylebau manwl isod yn llawn. Os bydd Asiantaethau DMiAU yn darparu unrhyw reoliadau ychwanegol, ni fydd rheoliadau o'r fath yn darparu mwy o fanteision, na chwaith yn cyfyngu ar gyfleoedd i fyfyrwyr gyflawni ar unrhyw gwrs penodol neu grŵp o gyrsiau, neu rhwng un Asiantaeth DMiAU ac un arall.

## Yr egwyddorion

Dyma'r egwyddorion sy'n hysbysu'r rheoliadau sy'n ymwneud ag ail asesu:

- mae nifer a math y cyfleoedd ailasesu'n gyfyngedig ac wedi eu diffinio'n glir
- nid yw'r cyfle i gael ailasesiad yn rhoi unrhyw fantais annheg i'r rheiny sy'n llwyddo dim ond ar ôl ailasesiad, na chwaith yn bychanu cyflawniadau'r rheiny sy'n llwyddo ar y cais cyntaf
- nid yw cyfleoedd ailasesu'n tanseilio hyder pobl yn safon y Diploma Mynediad i AU
- rhoddir ystyriaeth i unrhyw amgylchiadau esgusodol sy'n effeithio ar y myfyriwr
- mae gan y tiwtoriaid cwrs rôl ganolog yn y broses o wneud penderfyniadau am gyfleoedd ailasesu, a chadarnheir penderfyniadau'r tiwtoriaid am ailasesu drwy safoni
- ni ddylai cyfleoedd ailasesu roi llwyth gwaith ar diwtoriaid neu safonwyr sy'n afresymol neu'n amhosib ei gyflawni
- mae'r rheoliadau asesu'n cyfateb â'r egwyddorion a gweithdrefnau ehangach ar gyfer dyfarnu credydau a graddau ar gyrsiau Diploma Mynediad i AU.

## Ailgyflwyno gwaith

Mae'r broses ailgyflwyno'n berthnasol os cyflwynir aseiniad nad yw'n cyflawni'r deilliannau dysgu sydd wedi eu pennu ar gyfer yr aseiniad hwnnw; felly, ni allai gyfri tuag at gredyd neu radd a ddyfernir ar gyfer yr uned (gwelwch adran 4e 'Ailgyflwyno gwaith').

Mae'n rhaid i'r gofynion o ran ailgyflwyno:

**a fod yn gymesur â gradd peidio cyflawni**

Fel arfer, mae hyn yn golygu:

**bod mater o fanylyn bach wedi ei hepgor**, felly nid yw un o'r deilliannau dysgu wedi ei gyflawni; gallai'r gofynion o ran ailgyflwyno ofyn am gyflwyno deunyddiau ychwanegol

**nad yw un o'r sgiliau wedi ei ddangos yn llawn**, felly nid yw un o'r deilliannau dysgu wedi ei gyflawni; gallai'r gofynion o ran ailgyflwyno ymdrin â'r un deilliant dysgu hwn a'i asesu ar ei ben ei hun; (ni ellir ystyried meini prawf asesu unigol ar wahân i'r deilliant dysgu y maen nhw'n berthnasol iddo)

**nad yw nifer o'r deilliannau dysgu wedi eu cyflawni**, neu ystyrir bod y diffyg cyflawniad yn un sylweddol mewn rhyw ffordd arall (er enghraifft, os bydd y dystiolaeth ar gyfer un deilliant dysgu'n deillio o'r darn cyfan o waith); mae'r gofynion o ran ailgyflwyno'n debygol o gynnwys ystyriaeth lawn ac ail weithio'r aseiniad cyfan.

**b fod yn gyson â'r ffordd yr aseswyd y deilliant/deilliannau dysgu'n wreiddiol**

Fel arfer, bydd hyn yn golygu y defnyddir yr un dull i asesu'r ailgyflwyniad ag a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyflwyniad gwreiddiol, ac eithrio:

**os na fydd hi'n ymarferol neu'n bosibl** i ofynion ailgyflwyno fod yr un fath â'r aseiniad gwreiddiol neu'r dasg asesu wreiddiol (er enghraifft, rhai mathau o waith grŵp, neu waith ymchwil ymarferol), dylid asesu'r deilliant/deilliannau dysgu (sydd heb eu cyflawni) drwy aseiniad sydd â gofynion cyfatebol i rai'r aseiniad gwreiddiol

**os gellid sicrhau mantais annheg** drwy ailgyflwyno'r un aseiniad neu'r un dasg asesu, dylid llunio aseiniad cyfatebol i asesu'r deilliant/deilliannau dysgu sydd heb eu cyflawni eto a dylid gohirio dychwelyd gwaith y myfyrwyr eraill nes bydd yr ailgyflwyniad hwn wedi ei derbyn

**os bydd y deilliannau dysgu ar gyfer yr uned dan sylw mewn mwy nag un aseiniad**, mae'r ailgyflwyniad yn ymwneud â'r aseiniad hwnnw lle na chyflawnwyd y deilliannau dysgu; pan mae canlyniadau'r ailgyflwyniad yn hysbys, ac os bydd pob un o'r deilliannau dysgu ar gyfer yr uned wedi eu cyflawni, gellir creu'r proffil graddio cyflawn ar gyfer yr uned, a phenderfynu ar y radd ar gyfer yr uned

**os asesir deilliannau dysgu ar gyfer yr uned yn rhan o aseiniad** a ddefnyddir hefyd i asesu deilliannau dysgu ar gyfer uned arall, dylai'r broses ailasesu ganolbwyntio ar yr uned benodol na chyflawnwyd y deilliannau dysgu ar ei chyfer ar y cyflwyniad cyntaf; os bydd deilliannau dysgu sy'n berthnasol i uned arall wedi eu cyflawni yn yr aseiniad, dyfernir y graddau ar gyfer yr uned arall honno ar sail yr aseiniad gwreiddiol.

**c nodi dyddiad cau clir ar gyfer ailgyflwyno'r gwaith**

Fel arfer, bydd hyn:

- yn digwydd gynted ag y bo modd ar ôl i'r adborth ar y cyflwyniad ffurfiol gael ei roi
- yn ymarferol a rhesymol ar gyfer y gofynion penodol o ran ailgyflwyno (yn cynnwys pennu ffrâm amser cyfyngedig iawn, os yw hynny'n briodol)
- wedi ei gytuno a'i gadarnhau gyda'r myfyriwr
- yn briodol i'r cam a gyflawnwyd yn y cwrs (lle bynnag y bo modd gan ganiatáu i ailasesiad gael ei gwblhau cyn i'r Bwrdd Dyfarnu gyfarfod (gwelwch Adran E).

**d gael eu dilyn yn gyson mewn sefyllfaoedd asesu cyfatebol**

er mwyn sicrhau bod gan bob myfyriwr gyfleoedd cyfatebol i ailgyflwyno ac ailasesu.

**e sicrhau y gellir gwahaniaethu'n eglur rhwng y gwaith a ailgyflwynir sydd wedi ei ychwanegu neu ei ddiwygio a'r gwaith gwreiddiol a gyflwynwyd yn aflwyddiannus**

er enghraifft, drwy i'r myfyriwr ddychwelyd y gwaith gwreiddiol ochr yn ochr â'r gwaith a ailgyflwynir.

**f fynd drwy broses safoni**

Bydd y gweithdrefnau safoni ar gyfer gwaith a ailgyflwynir yn:

- cadarnhau bod yr arferion ailgyflwyno ar lefel y cwrs yn cyfateb â'r canllawiau hyn a rheoliadau asesu'r Asiantaeth DMiAU
- cadarnhau bod yr arferion ailgyflwyno'n cael eu gweithredu'n gyson ar draws y ddarpariaeth y mae'r safonwr yn gyfrifol amdani

- ystyried esiamplau o waith a ailgyflwynwyd, ochr yn ochr â'r cyflwyniadau gwreiddiol, ac yn cadarnhau cysondeb ym mhenderfyniadau asesu'r tiwtoriaid am waith a ailgyflwynwyd.

## Ailystyried gwaith

Mae'r drefn ailystyried yn berthnasol os bydd y myfyriwr yn gwneud cais am adolygu'r dangosyddion graddau heb eu cadarnhau a nodwyd ar gyfer uned astudio wedi i'r uned gael ei graddio ond cyn iddi fynd drwy'r broses safoni.

Os bydd un o'r myfyrwyr eisiau gwneud cais am ailystyried un neu fwy o'r dangosyddion graddau a roddwyd gan diwtor ar gyfer unrhyw uned unigol, bydd yn rhaid i'r myfyriwr wneud hynny gynted ag y bo modd. Fel arfer, dylai hyn ddigwydd o fewn wythnos i dderbyn y gwaith wedi'i raddio.

Yn y lle cyntaf, bydd y tiwtor yn trafod y gwaith a aseswyd gyda'r myfyriwr er mwyn esbonio'r penderfyniadau graddio a wnaed.

Os na fydd y myfyriwr yn fodlon â'r esboniad ac mae'n dymuno gwneud cais am ailystyried, bydd gwaith perthnasol y myfyriwr yn cael ei ystyried gan y safonwr mewnol, neu drwy ddulliau eraill o'r fath sydd wedi cael eu cymeradwyo at ddibenion yr Asiantaeth DMiAU. Gwneir cofnod ffurfiol o gais y myfyriwr am ailystyried ei waith.

Os bydd y broses hon yn dod i'r casgliad na ddylid newid unrhyw raddau (mae hyn yn golygu bod penderfyniad gwreiddiol y tiwtor wedi ei gadarnhau), rhoddir gwybod i'r myfyriwr am y penderfyniad hwn, a nodir y canlyniad yn y cofnod ffurfiol o'r cais am ailystyried. Mae modd apelio yn erbyn y penderfyniad hwn drwy ddilyn y trefnau apelio perthnasol (gwelwch Adran E). Bydd y cofnod ffurfiol o'r cais am ailystyried a'i ganlyniad ar gael mewn unrhyw apêl ddilynol.

Os bydd y broses adolygu fewnol yn dod i'r casgliad y rhoddwyd penderfyniad gwallus, ailasesir yr aseiniad(au) perthnasol a rhoddir adborth newydd am unrhyw ddangosyddion gradd ar gyfer yr uned a gafodd eu newid. Mae'n rhaid cadw copïau o'r adborth gwreiddiol a'r adborth diwygiedig, ynghyd â'r dangosyddion graddau diwygiedig. Nodir y canlyniad yn y cofnod ffurfiol o'r cais am ailystyried.

Bydd y cofnod ffurfiol o'r cais am ailystyried yn cynnwys y canlynol:

- y dyddiad y gwneir y cais am ailystyried
- natur y cais am ailystyried
- natur unrhyw newid a wneir
- y rheswm am wneud y newid neu am benderfynu peidio newid
- y dyddiad y cymeradwyir y newid
- enw'r tiwtor oedd yn gyfrifol am asesu'r gwaith gwreiddiol ac enw'r safonwr mewnol (neu unigolyn awdurdodedig arall) a gymeradwyodd y newid.

Bydd y safonwr allanol yn ystyried y cofnodion ffurfiol o bob cais am ailystyried, ac yn cadarnhau y gweithredwyd y broses ailystyried mewn ffordd briodol, ac efallai'n samplu ac adolygu ceisiadau unigol.

Ni chaiff tiwtoriaid o dan unrhyw amgylchiadau wneud unrhyw newid i ddangosyddion gradd neu raddau uned heb gynnwys y safonwr mewnol yn y broses, ac heb wneud cofnod ffurfiol.

## Atgyfeirio gwaith (ailgyflwyno am yr ail dro)

(Mae Atodiad E1 Adran E yn rhoi trosolwg o'r broses hon.)

Os na fydd un o'r myfyrwyr wedi cyflawni un neu fwy o'r deilliannau dysgu ar gyfer yr asesiad y mae wedi ei ailgyflwyno am y tro cyntaf, neu os cyflwynir gwaith yn hwyr heb sicrhau estyniad o flaen llaw, gall y myfyriwr gael ei atgyfeirio i dderbyn cyfle i ailgyflwyno'r gwaith am yr ail dro. Os bydd hyn yn digwydd yn ystod y cwrs, rhaid defnyddio'r broses sydd wedi ei disgrifio isod. Os bydd hyn yn digwydd ar ddiwedd y cwrs (er enghraifft, mewn asesiadau terfynol), rhaid dilyn y broses sydd wedi ei disgrifio yn Adran E.

**Cyn atgyfeirio gwaith**

Mae'r tiwtor perthnasol yn trafod gyda'r safonwr mewnol a ddylid cynnig cyfle i atgyfeirio'r gwaith. Bydd y safonwr mewnol yn sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion a ganlyn:

- bod y myfyriwr wedi cwblhau'r broses ailgyflwyno ac wedi methu cyflawni pob un o'r deilliannau dysgu ar gyfer y gwaith a atgyfeirir
- bod y tiwtoriaid wedi trafod gyda'r myfyriwr beth fyddai'r ffordd orau ymlaen
- bod y myfyriwr yn ymwybodol o'r ffaith na fydd y broses atgyfeirio'n arwain yn awtomatig at gymeradwyo'r cais am ailgyflwyno'r gwaith am yr ail dro
- bod y myfyriwr yn ymwybodol o'r ffaith y bydd y prif safonwr neu'r safonwr allanol yn penderfynu, ar sail y dystiolaeth a gyflwynir, a ddylid cynnig cyfle pellach i gyflwyno un neu fwy o aseiniadau ar y cam hwn yn y cwrs.

## Tystiolaeth

Mae'n rhaid i unrhyw dystiolaeth i ategu'r cais am atgyfeirio gyfeirio at y canlynol:

- unrhyw amgylchiadau arbennig sy'n effeithio ar y myfyriwr unigol
- yr aseiniad penodol hwnnw lle argymhellir i'r prif safonwr neu'r safonwr allanol bod y myfyriwr yn cael ei atgyfeirio
- manylion y cyflawniad a geir yn y cyflwyniadau/ailgyflwyniadau gwreiddiol ar gyfer yr uned(au) dan sylw (gan gynnwys unrhyw aseiniadau eraill a gyflawnwyd sy'n cyfrannu at asesiad yr uned)
- proffil cyflawniad cyfan y myfyriwr hyd at y pwynt ar y cwrs Mynediad i AU pan ofynnir am yr atgyfeiriad (gan gynnwys teitlau'r unedau, eu gwerth credyd a'r graddau dangosol, ac a chawsant eu cyflawni ai peidio ar sail ailgyflwyno'r gwaith am yr ail dro o ganlyniad i atgyfeiriad). Fel arfer, ni ystyrir ceisiadau am atgyfeirio lle mae cyfanswm gwerth credyd yr unedau sydd wedi eu cyflawni'n barod drwy'r broses atgyfeirio, neu a allai gael eu cyflawni o ganlyniad i atgyfeiriad pellach, yn fwy na 15.

Anfonir y cais am atgyfeirio, ynghyd â chofnodion o'r broses hon, at y prif safonwr neu'r safonwr allanol (drwy'r drefn a bennir gan yr Asiantaeth DMiAU) i benderfynu ar y cais.

**Penderfyniadau**

Wrth benderfynu ar geisiadau atgyfeirio, mae'n rhaid i'r prif safonwr neu'r safonwr allanol roi ystyriaeth i'r canlynol:

- a ddylid cynnig cyfle i ailgyflwyno'r gwaith am yr ail dro
- natur a maint y gofynion o ran ailgyflwyno; rhaid i hyn gydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran ailgyflwyno gwaith am y tro cyntaf (gwelwch baragraffau a, b, d ac f yr adran 'Ailgyflwyno gwaith' uchod)
- y dyddiad cau ar gyfer ailgyflwyno'r gwaith am yr ail dro; os atgyfeirir gwaith yn ystod y flwyddyn, gosodir y dyddiad cau hwn gan gymryd i ystyriaeth y canlynol:
- y bydd angen rhoi gwybod i'r myfyriwr am y penderfyniadau, a ddylai ddigwydd gynted ag y bo modd ar ôl i'r cais am atgyfeirio gael ei anfon at y safonwr allanol
- y bydd angen caniatáu amser rhesymol i'r myfyriwr gwblhau'r ailgyflwyniad
- y bydd angen asesu'r aseiniad(au) a ailgyflwynwyd
- y bydd y prif safonwr neu'r safonwr allanol yn rhoi gwybod i'r safonwr mewnol am y penderfyniadau a wneir, a manylion y gofynion o ran ailgyflwyno (os cynigir cyfle atgyfeirio), a fydd yn ei dro/thro wedyn yn hysbysu'r tiwtor.

**Asesu gwaith a atgyfeirir**

Yn y mwyafrif o achosion, bydd hi'n amlwg a yw'r gwaith a ailgyflwynir am yr ail dro i gael ei asesu (h.y. o ganlyniad i atgyfeirio) yn dangos ai peidio bod y myfyriwr wedi cyflawni'r safon ofynnol. Ond, os bydd yr aseswr yn ansicr a yw'r dystiolaeth yn ddigonol i gyfiawnhau gwneud penderfyniad asesu bod safon y gwaith yn ddigonol i fodloni gofynion y deilliant/deilliannau dysgu cysylltiedig (h.y. pasio) ac eisiau i hyn gael ei godi i dderbyn ystyriaeth, mae'n rhaid defnyddio'r broses a ganlyn:

Mae'n rhaid i'r tiwtor ofyn i safonwr mewnol adolygu'r gwaith. Wrth adolygu, byddent yn defnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu a yw'r deilliannau dysgu perthnasol wedi eu cyflawni ai peidio.

Yna, bydd y safonwr mewnol yn cyfeirio'r gwaith a aseswyd a'r feirniadaeth (ynghyd â sylwadau) at y prif safonwr neu'r safonwr allanol i safoni'r penderfyniad a yw'r safon asesu ar gyfer y radd 'pasio' (ac felly'r uned) wedi ei chyflawni ai peidio. Bydd y prif safonwr neu'r safonwr allanol yn rhoi gwybod i'r safonwr mewnol am y penderfyniad hwn ac yn cadw cofnod i'w ddwyn gerbron y Bwrdd Dyfarnu, a thrwy hynny i'r Asiantaeth DMiAU. Bydd y safonwr mewnol yn hysbysu'r aseswr, a nodir y feirniadaeth yng nghofnod y myfyriwr.

Mae pob defnydd a wneir o'r dull hwn, gyda'r sail ar gyfer y feirniadaeth, yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cwrs a thrwy'r prif safonwr neu'r safonwr allanol i adrodd i'r Bwrdd Dyfarnu a thrwy hynny'r Asiantaeth DMiAU. Dylai'r Asiantaeth DMiAU gymryd camau os bydd y wybodaeth hon yn awgrymu bod nodweddion y ffordd y mae'r uned wedi ei hysgrifennu neu'r asesiad wedi ei lunio'n arwain at unrhyw amwysedd neu anhawster afresymol arall i'r myfyrwyr wrth ddarparu gwaith priodol ar gyfer yr asesiad.

Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU gefnogi'r dull hwn o asesu gwaith a atgyfeirir, ac mae'n rhaid hyfforddi'r aseswyr a'r safonwyr mewnol ac allanol yn briodol.

**Canlyniadau posibl ailgyflwyniad wedi'i atgyfeirio**

Os bydd ailgyflwyniad a atgyfeirir yn aflwyddiannus (h.y. nid yw'r gwaith a ailgyflwynwyd wedi iddo gael ei atgyfeirio'n dangos bod y myfyriwr wedi cyflawni'r deilliant/deilliannau dysgu), ni cheir dyfarnu unrhyw gredyd neu radd ar gyfer yr uned. Nid oes statws ffurfiol gan broffil graddio uned sydd wedi ei gwblhau'n rhannol.

Os gwneir ailgyflwyniad a atgyfeirir yn ystod y cwrs, ac os bydd hyn wedi llwyddo (mae hyn yn golygu bod y gwaith a ailgyflwynwyd ar ôl yr atgyfeirio'n dangos bod y deilliannau dysgu wedi eu cyflawni), nodir y canlyniad hwn yng nghofnod y myfyriwr, a bydd y cofnod hwn yn cael ei ddwyn gerbron y Bwrdd Dyfarnu ar ddiwedd y cwrs. Rhaid ymdrin ag ailgyflwyniadau wedi'u hatgyfeirio sy'n llwyddiannus ar ddiwedd y cwrs yn y ffordd sydd wedi ei disgrifio yn Adran E.

Bydd y safonwr mewnol a'r prif safonwr neu'r safonwr allanol yn cadw eu cofnodion eu hunain o unrhyw geisiadau atgyfeirio a wneir. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys y canlynol: pa mor aml y defnyddir y dull hwn; natur y gwendidau ym mherfformiad y myfyriwr a arweiniodd at fethiant i gyflawni un neu fwy o'r deilliannau dysgu; pa mor aml y cymeradwyir ceisiadau am atgyfeirio; a chanlyniad terfynol yr asesiad. Dylai'r Asiantaeth DMiAU gymryd camau os bydd y wybodaeth hon yn awgrymu bod nodweddion y ffordd y mae'r uned wedi ei hysgrifennu neu'r asesiad wedi ei lunio'n arwain at unrhyw amwysedd neu anhawster afresymol arall i'r myfyrwyr wrth ddarparu gwaith priodol ar gyfer yr asesiad.

Darperir cofnod cyflawn o bob cais am atgyfeirio a'u canlyniadau i'r Bwrdd Dyfarnu, a thrwy hynny i'r Asiantaeth DMiAU er gwybodaeth ac er mwyn adolygu.

O ran atgyfeiriadau y mae'n rhaid eu gwneud ar ddiwedd y flwyddyn am eu bod yn ganlyniad i aseiniad a geisiwyd yng ngham olaf yn y cwrs, mae'n rhaid cyfeirio'r rhain at y Bwrdd Dyfarnu, oherwydd mae atgyfeirio gwaith ar y cam hwn yn gofyn rhoi cyfleoedd i'r myfyrwyr wneud asesiadau ar ôl diwedd y cwrs, ac mae hyn yn effeithio ar y gofynion adnoddau dynol a ffisegol, yn ogystal â'r dyfarniadau eu hunain, ac mae angen ystyried yr effeithiau hyn yn llawn a'u rheoli'n ofalus (gwelwch Atodiad E).

## Atodiad C2: Y proffiliau graddio a'r graddau ar gyfer unedau

Unwaith y bydd y proffil graddio ar gyfer yr uned wedi ei bennu gan ddefnyddio pob un o'r tair Safon Raddio, gellir penderfynu ar y radd gyffredinol ar gyfer yr uned gan ddefnyddio Tabl 1 isod. Yn y tabl isod, mae'r graddau wedi eu trefnu o'r isaf i'r uchaf. Nid yw'r tair colofn yn gysylltiedig ag unrhyw Safon Raddio benodol (er enghraifft, nid yw'r golofn gyntaf yn dangos Safon Raddio 1).


Gan ddefnyddio'r tabl isod, os bydd myfyriwr wedi derbyn dau ddangosydd gradd 'pasio' ac un dangosydd gradd 'rhagoriaeth', beth bynnag fo'r Safon Raddio y mae pob un o'r dangosyddion hyn yn berthnasol iddi, bydd y myfyriwr hwnnw'n derbyn gradd 'pasio' ar gyfer yr uned; os bydd myfyriwr wedi derbyn dau ddangosydd gradd 'rhagoriaeth' ac un dangosydd gradd 'pasio', beth bynnag fo'r Safon Raddio y mae pob un o'r dangosyddion hyn yn berthnasol iddi, bydd y myfyriwr hwnnw'n derbyn gradd 'rhagoriaeth' ar gyfer yr uned.

**Tabl 1: Cyfrifo'r graddau ar gyfer yr uned ar sail y proffil graddio ar gyfer yr uned**


| Y proffiliau graddio ar gyfer unedau | | | Y radd ar gyfer yr uned |
|---|---|---|---|
| **P** | **P** | **P** | **P** |
| **P** | **P** | **T** | **P** |
| **P** | **P** | **Rh** | **P** |
| **P** | **T** | **T** | **T** |
| **P** | **T** | **Rh** | **T** |
| **T** | **T** | **T** | **T** |
| **T** | **T** | **Rh** | **T** |
| **P** | **Rh** | **Rh** | **Rh** |
| **T** | **Rh** | **Rh** | **Rh** |
| **Rh** | **Rh** | **Rh** | **Rh** |

Pasio (P) Teilyngdod (T) Rhagoriaeth (Rh)


# Atodiad C3: Siart llif y broses gyflwyno



# Atodiad C4: Siart llif y broses ailgyflwyno



# Atodiad C5: Siart llif y broses ailystyried



## Rheoli fersiynau

**Teitl y ddogfen**

Y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch - Adran C 'Defnyddio'r safonau graddio mewn asesu'

**Disgrifiad o'r ddogfen**

Y ddogfen hon yw Adran C y Cynllun Graddio ar gyfer Diplomâu Mynediad i Addysg Uwch sy'n rhoi manylion rheoliadau asesu'r Cynllun Graddio. Mae hon yn ddogfen reoleiddiol sy'n rhan o'r Cynllun Cydnabod a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).

| | |
|---|---|
| **Perchennog y ddogfen** | Rheolwr y Diploma Mynediad i AU |
| **Cymeradwywyd gan Fwrdd QAA** | Dyddiad: Mawrth 2025 |
| **Lleoliad cyhoeddi** | https://www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au/adnoddau-yn-ymwneud--acirc--mynediad-i-au/cynllun-graddio-mynediad-i-au |

**Cysylltiadau â dogfennau rheoleiddiol eraill**

y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch

yr Amodau Mynediad i AU

y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU - Adrannau B i E

Manyleb y Diploma Mynediad i AU

I weld manylion, ewch i: www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au

| | |
|---|---|
| **Y dyddiad adolygu nesaf** | Dyddiad: Gorffennaf 2028 |

| **Fersiwn** | **Y dyddiad cyhoeddi** | **Y wybodaeth wedi ei diweddaru** |
|---|---|---|
| 1.0 | Gorffennaf 2024 | Yr argraffiad cyhoeddedig cyntaf |
| 2.0 | Mawrth 2025 | Adolygwyd y gair Saesneg am 'atodiad' i sicrhau aliniad ag arddull fewnol benodol gyfredol QAA<br><br>Ychwanegwyd "Wrth osod eu gofynion ar gyfer asesiadau, dylai pob Asiantaeth DMiAU roi ystyriaeth i Adran E yr *Amodau Mynediad i AU* hefyd."<br><br>Defnyddiwyd y geiriau 'aseinio' neu 'roi' yn lle'r 'dyfarnu' gwreiddiol yn yr adran 'Cynllunio ar gyfer asesu a graddio', o dan adran 2a sy'n ymwneud â'r camau a gymerir gan y tiwtor wrth raddio asesiadau<br><br>Ychwanegwyd cyfeiriad at 'Amod F1.1' ar ddiwedd adran 2a<br><br>Ychwanegwyd hyn: "Mae'r drefn ailystyried yn berthnasol os bydd y myfyriwr yn gwneud cais am adolygu'r dangosyddion graddau heb eu cadarnhau a nodwyd ar gyfer uned astudio wedi i'r uned gael ei graddio ond cyn iddi fynd drwy'r broses safoni." fel y pwynt bwled cyntaf o dan adran 7b, ac fe'i hailadroddir o dan 'Ailystyried |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwaith' yn Atodiad C1 'Y rheoliadau sy'n ymwneud ag ailasesu (ailgyflwyno, ailystyried ac atgyfeirio)'<br><br>Ychwanegwyd "Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2023, a chafodd ei diweddaru ym mis Gorffennaf 2025<br>i gynnwys cyflwyniad yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch."<br><br>yn lle<br><br>"Mae'r adran hon o'r Cynllun Graddio'n cymryd lle'r adran gyfatebol yng Nghynllun Graddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Medi 2020). Mae'n berthnasol i bob myfyriwr newydd sy'n cofrestru ar gwrs Diploma o 1 Awst 2024 ymlaen. Hefyd, diweddarwyd Manyleb y Diploma Mynediad i AU i fod yn berthnasol i bob myfyriwr newydd sy'n cofrestru ar gwrs Diploma o 1 Awst 2024 ymlaen."<br><br>Diweddarwyd yr adran am reoli fersiynau |

Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2023, a chafodd ei diweddaru ym mis Gorffennaf 2025 i gynnwys cyflwyniad yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch.

Mewn perthynas â'r myfyrwyr hynny oedd wedi eu cofrestru cyn 1 Awst 2024, gwelwch *Fanyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch* (Ionawr 2020) a'r *Cynllun Graddio* (Medi 2020) sydd ar gael ar www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au.

Diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au